OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 569

# Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Gweddillion Uchaf) (Cymru) 2019

## RHAN 5

## Amrywiol

**Cymhwyso ac addasu darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990**

**33.**—(1) Mae'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn ac, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, dehonglir unrhyw gyfeiriad ynddynt at y Ddeddf honno at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn—

(a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc.);

(b) adran 3 (rhagdybiaeth bod bwyd wedi ei fwriadu i'w fwyta gan bobl);

(c) adran 20 (troseddau oherwydd bai person arall);

(d) adran 21(1), (5) a (6) (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy);

(e) adran 22 (amddiffyniad cyhoeddi yng nghwrs busnes);

(f) adran 33 (rhwystro etc. swyddogion); ac

(g) adran 35(1) i (3) (cosbi troseddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â throseddau o dan adran 33(1) a (2).

(2) Mae adran 9 o'r Ddeddf (arolygu bwyd a amheuir ac ymafael ynddo) yn gymwys, yn ddarostyngedig i baragraff (3), at ddibenion y Rheoliadau hyn fel pe bai cynnyrch anifeiliaid y mae'n drosedd ei werthu o dan y Rheoliadau hyn yn fwyd a fyddai'n methu cydymffurfio â'r gofynion ynglŷn â diogelwch bwyd.

(3) Mae adran 9 o'r Ddeddf yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) yn lle'r geiriau "food authority" ym mhob lle y maent yn digwydd rhodder y geiriau "enforcement authority"; a

(b) mae'r cyfeiriad yn is-adran (5)(a) at adran 7 o'r Ddeddf i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn.

(4) Mae adran 29 o'r Ddeddf (caffael samplau) yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiad bod y geiriau "section 32 of the Act as applied by this regulation" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau "section 32 below" ym mharagraff (b)(ii).

(5) Mae adran 30 o'r Ddeddf (dadansoddi etc. samplau) yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiad bod y geiriau ", other than an official sample," wedi eu mewnosod ar ôl y geiriau "section 29 above".

(6) Mae adran 32 o'r Ddeddf (pwerau mynediad) yn gymwys gan hepgor y gair "food" yn is-adran (5) ac mae'r cyfeiriadau at "regulations" yn is-adran (1), at ddibenion y Rheoliadau hyn, i'w dehongli fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at Erthyglau 14(6) ac 16 o Reoliad 470/2009.

(7) Mae adran 44 o’r Ddeddf (amddiffyn swyddogion sy’n gweithredu’n ddidwyll) yn gymwys yn ddarostyngedig i’r addasiad bod y geiriau “enforcement authority” wedi eu rhoi yn lle’r geiriau “food authority” ym mhob lle y maent yn digwydd.